Home Office

# Y Swyddfa Gartref

# Canllawiau ar y Cynllun Cofrestru Dylanwad Tramor (FIRS): Gwybodaeth sydd ei hangen wrth Gofrestru a'r Gofrestr Gyhoeddus

Ebrill 2025

OGL

© Hawlfraint y Goron 2025

Mae'r cyhoeddiad hwn wedi'i drwyddedu o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored v3.0 oni nodir yn wahanol. I weld y drwydded hon, ewch i nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3 neu ysgrifennwch at y Tîm Polisi Gwybodaeth, Yr Archifau Cenedlaethol, Kew, Llundain TW9 4DU, neu e-bostiwch: psi@nationalarchives.gov.uk.

Lle rydym wedi nodi unrhyw wybodaeth hawlfraint trydydd parti, bydd angen i chi gael caniatâd gan y deiliaid hawlfraint dan sylw.

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael yn https://www.gov.uk/government/collections/foreign-influence-registration-scheme

Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynghylch y cyhoeddiad hwn atom yn

FIRS@homeoffice.gov.uk

# Cynnwys


Rhestr Termau Allweddol 2

Pennod 1: Ynglŷn â'r Canllawiau hyn 3

Pennod 2: Gwybodaeth ofynnol sy'n ymwneud â chofrestreion (y ddwy haen) 4

Cofrestreion unigol 4

Cofrestreion corff corfforaethol 5

Cofrestreion cymdeithas anghorfforedig 6

Gwybodaeth sy'n ymwneud â chynrychiolwyr trydydd parti **Error! Bookmark not defined.**

Pennod 3: Gwybodaeth sy'n ofynnol o dan yr haen dylanwad gwleidyddol 8

Gwybodaeth sy'n ymwneud â threfniadau haen dylanwad gwleidyddol 8

Gwybodaeth sy'n ymwneud â gweithgareddau cyfathrebu 9

Gwybodaeth sy'n ymwneud â gweithgareddau cyfathrebu cyhoeddus 9

Gwybodaeth sy'n ymwneud â gweithgareddau dosbarthu 10

Pennod 4: Gwybodaeth sy'n ofynnol o dan yr haen uwch 11

Gwybodaeth sy'n ymwneud â threfniadau gyda phwerau neu endidau tramor penodedig 11

Gwybodaeth sy'n ymwneud â gweithgareddau a gyflawnir gan endid penodedig a reolir gan bŵer tramor 12

Pennod 5: Y Gofrestr Gyhoeddus 14

Cadw gwybodaeth ar y gofrestr gyhoeddus 14

Pennod 6: Lefel y manylder angenrheidiol wrth gofrestru 15

Pennod 7: Eithriadau i gyhoeddi 16

Proses ar gyfer cymhwyso eithriadau i gyhoeddi 16

Pennod 8: Rhyngweithio cofrestr gyhoeddus FIRS â chyhoeddiadau tryloywder eraill 21

Cofrestrau Buddiannau Ariannol Senedd y DU 21

# Rhestr Termau Allweddol

| | |
|---|---|
| **FIRS** | Cynllun Cofrestru Dylanwad Tramor. Y Cynllun a gyflwynwyd trwy Ran 4 o Ddeddf Diogelwch Cenedlaethol 2023. |
| **Trefniant** | Unrhyw fath o gytundeb, boed yn ffurfiol neu'n anffurfiol. Gallai gynnwys contract, memorandwm dealltwriaeth (MOU) neu gytundeb neu drefniant anffurfiol quid pro quo. |
| **Pŵer tramor** | Mae iddo’r ystyr a roddir gan Adran 32 o Ddeddf Diogelwch Gwladol 2023. |
| **Gweithgareddau dylanwad gwleidyddol** | Cyfathrebiad, cyfathrebiad cyhoeddus neu ddarpariaeth o arian, nwyddau neu wasanaethau a fwriedir i ddylanwadu ar fater gwleidyddol. |
| **Person** | Unigolyn neu berson arall nad yw'n unigolyn, fel cwmni. |
| **Cofrestrai** | Person y mae'n ofynnol iddo gofrestru o dan FIRS. |
| **Pŵer tramor penodedig** | Pŵer tramor sydd wedi'i bennu trwy reoliadau o dan haen uwch FIRS. |

# Pennod 1: Ynglŷn â'r Canllawiau hyn

Mae'r Cynllun Cofrestru Dylanwad Tramor (FIRS) yn gynllun dwy haen sy'n sicrhau tryloywder dylanwad tramor yng ngwleidyddiaeth y DU ac yn rhoi mwy o sicrwydd ynghylch gweithgareddau rhai pwerau neu endidau tramor a allai beri risg i ddiogelwch y DU a buddiannau eraill. Mae wedi'i gynnwys yn Rhan 4 o Ddeddf Diogelwch Cenedlaethol 2023.

Mae'n ofynnol i'r rhai sy'n cofrestru gyda'r cynllun ddarparu manylion amdanynt eu hunain neu eu sefydliad, manylion am eu trefniant a manylion am y gweithgareddau i'w cynnal. Bydd y gwasanaeth cofrestru ar-lein yn cyfarwyddo'r rhai sy'n cofrestru i ddarparu'r wybodaeth briodol yn ôl eu hamgylchiadau eu hunain.

Bydd gwybodaeth a gofrestrwyd o dan FIRS sy'n ymwneud â gweithgareddau dylanwad gwleidyddol yn cael ei chynnwys ar gofrestr gyhoeddus. Nod y gofrestr hon yw rhoi gwybodaeth well i'r cyhoedd ynghylch graddfa a maint dylanwad tramor mewn materion gwleidyddol y DU. Dylid ystyried bod y rhai sy'n ymddangos ar y gofrestr gyhoeddus yn cefnogi amcanion tryloywder y cynllun. Nid yw ymddangos ar y gofrestr yn golygu bod unigolyn neu endid yn gwneud unrhyw beth anghyfreithlon.

Mae'r canllawiau hyn yn rhoi rhagor o fanylion am y wybodaeth sydd ei hangen wrth gofrestru, a gwybodaeth am y gofrestr gyhoeddus, gan gynnwys y trefniadau penodol a fydd yn cael eu cyhoeddi, yr amgylchiadau y gall eithriadau i gyhoeddi fod yn berthnasol ynddynt a hyd cadw gwybodaeth ar y gofrestr gyhoeddus. Fe'i bwriedir ar gyfer y rhai a allai fod o fewn cwmpas y naill haen neu'r llall o'r Cynllun, yn ogystal â defnyddwyr y gofrestr gyhoeddus.

Mae canllawiau ar wahân ar gael ar ofynion yr haen dylanwad gwleidyddol a'r haen uwch.

# Pennod 2: Gwybodaeth ofynnol sy'n ymwneud â chofrestreion (y ddwy haen)

1. Gall cofrestrai fod yn unigolyn, yn gorff corfforaethol (megis cwmni cyfyngedig) neu'n gymdeithas anghorfforedig (megis clwb chwaraeon).

2. Bydd gwybodaeth benodol sy'n ymwneud â chofrestreion yn cael ei chynnwys ar y gofrestr gyhoeddus, fel y nodir yn y golofn dde yn y tablau isod. Fodd bynnag, dim ond os yw'r trefniant ei hun o fewn cwmpas cyhoeddi y bydd gwybodaeth yn cael ei chyhoeddi ac nad oes unrhyw esemptiad i gyhoeddi yn berthnasol. Gellir dod o hyd i fanylion pellach am y trefniadau a fydd yn cael eu cyhoeddi ym mhennod 5.

## Cofrestreion unigol

3. Pan fo cofrestrydd yn **unigolyn**, mae'n ofynnol iddo ddarparu'r wybodaeth ganlynol:

| # | Math o wybodaeth sydd ei hangen | Wedi'i gyhoeddi |
|---|---|---|
| 1 | Enw llawn | Ydy |
| 2 | Unrhyw enw blaenorol | |
| 3 | Diwrnod a mis geni | |
| 4 | Blwyddyn geni | Ydy |
| 5 | Cenedligrwydd | |
| 6 | Cyfeiriad preswyl a chyfeiriad gohebiaeth | Rhannol *(tref, dinas, talaith, rhanbarth, a gwlad neu diriogaeth yn unig)* |
| 7 | Rhif ffôn *(lle bo ar gael)* | |
| 8 | Cyfeiriad e-bost *(lle bo ar gael)* | |

4. Mae'n ofynnol i gofrestreion unigol hefyd ddarparu copi o ddogfen adnabod, er mwyn gwirio eu hunaniaeth. At ddibenion cyfeirio Tîm Rheoli Achosion FIRS yn unig y mae'r copi o'r ddogfen adnabod hon ac ni chaiff ei chyhoeddi. Dylid darparu un o'r dogfennau adnabod canlynol, yn nhrefn ffafriaeth:
   - Pasbort y DU;
   - Trwydded yrru'r DU;
   - Pasbort tramor;
   - Cerdyn adnabod a gyhoeddwyd gan wladwriaeth yn yr UE neu'r AEE;
   - Trwydded yrru'r UE;
   - Cerdyn adnabod tramor.

5. Lle nad oes gan unigolyn unrhyw un o'r dogfennau uchod, yna mae'n ofynnol iddynt ddarparu un o'r darnau canlynol o wybodaeth, yn nhrefn ffafriaeth:
   - Rhif yswiriant gwladol y DU
   - Rhif nawdd cymdeithasol tramor a'r wlad neu'r diriogaeth a gyhoeddodd y rhif.

6. Ni fydd yn dderbyniol i unigolyn ddewis darparu math o ddogfennaeth adnabod sydd â blaenoriaeth is, os oes ganddo ddogfen sydd â blaenoriaeth uwch. Er enghraifft, rhaid i unigolyn sydd â phasbort y DU a phasbort o wlad arall ddarparu copi o basbort y DU.

## Cofrestreion corff corfforaethol

7. Pan fo cofrestrai yn **gorff corfforaethol**, mae'n ofynnol iddo ddarparu'r wybodaeth ganlynol:

| # | Math o wybodaeth sydd ei hangen | Wedi'i gyhoeddi |
|---|---|---|
| 1 | Enw llawn ac unrhyw enw masnachu | Ydy |
| 2 | *[Lle bo'n berthnasol]* Rhif cwmni cofrestredig ac enw'r gofrestr gyhoeddus y maent wedi'u cofrestru ynddi (er enghraifft, Tŷ'r Cwmnïau); | Ydy |
| 3 | Dyddiad corffori | |
| 4 | Gwlad neu diriogaeth corffori | Ydy |
| 5 | Cyfeiriad cofrestredig neu gyfeiriad y brif swyddfa | Ydy |
| 6 | Cyfeiriad gohebiaeth | |
| 7 | Rhif ffôn | |
| 8 | Cyfeiriad e-bost | |

8. Pan fo cofrestrai yn gorff corfforaethol, mae angen gwybodaeth sy'n ymwneud ag un swyddog o'r endid hefyd. Dylai hyn ymwneud â chyfarwyddwr, aelod o'r pwyllgor rheoli, prif weithredwr, rheolwr, ysgrifennydd neu swyddog tebyg arall o'r sefydliad. Nid oes angen iddynt fod yr un unigolyn â'r un sy'n cwblhau'r ffurflen o reidrwydd. Ni fydd unrhyw un o'u manylion yn cael eu cynnwys ar y gofrestr gyhoeddus.

9. Bydd y wybodaeth sy'n ofynnol gan y swyddog hwn yn cyd-fynd â'r wybodaeth sy'n ofynnol gan gofrestreion unigol. Mae darparu'r wybodaeth hon yn sicrhau bod unigolion cyfrifol yn adnabyddadwy ac yn atal camddefnyddio'r cynllun gan gwmnïau cregyn.

## Cofrestreion cymdeithas anghorfforedig

10. Pan fo cofrestrai yn **gymdeithas anghorfforedig**, mae'n ofynnol iddo ddarparu'r wybodaeth ganlynol:

| # | Math o wybodaeth sydd ei hangen | Wedi'i gyhoeddi |
|---|---|---|
| 1 | Enw'r gymdeithas anghorfforedig | Ydy |
| 2 | *[Lle bo'n berthnasol]* Rhif cwmni cofrestredig ac enw'r gofrestr gyhoeddus y maent wedi'u cofrestru ynddi (er enghraifft, Tŷ'r Cwmnïau); | Yes |
| 3 | Dyddiad sefydlu | |
| 4 | Gwlad neu diriogaeth y brif swyddfa | Ydy |
| 5 | Prif gyfeiriad | Ydy |
| 6 | Cyfeiriad gohebiaeth | |
| 7 | Rhif ffôn | |
| 8 | Cyfeiriad e-bost | |

11. Pan fo cofrestrai yngymdeithas anghorfforedig, mae angen gwybodaeth sy'n ymwneud ag un swyddog o'r endid hefyd. Dylai hyn ymwneud â chyfarwyddwr, aelod o'r pwyllgor rheoli, prif weithredwr, rheolwr, ysgrifennydd neu swyddog tebyg arall o'r sefydliad. Nid oes angen iddynt fod yr un unigolyn â'r un sy'n cwblhau'r ffurflen o reidrwydd. Ni fydd unrhyw un o'u manylion yn cael eu cynnwys ar y gofrestr gyhoeddus.

12. Bydd y wybodaeth sydd ei hangen gan y swyddog hwn yn cyd-fynd â'r wybodaeth sydd ei hangen gan gofrestreion unigol. Mae darparu'r wybodaeth hon yn sicrhau bod unigolion cyfrifol yn adnabyddadwy ac yn atal camddefnyddio'r cynllun gan gwmnïau cregyn.

## Gwybodaeth sy'n ymwneud â chynrychiolwyr trydydd parti

13. Gall cofrestreion ymddiried i gynrychiolwyr trydydd parti lenwi'r ffurflen gofrestru ar eu rhan. Yn yr amgylchiadau hyn, mae angen gwybodaeth benodol am y cynrychiolydd, yn ogystal â gwybodaeth am y cofrestrydd.

14. **Nid** yw'r adran hon yn berthnasol i gyflogai sy'n cofrestru ar gyfer ei gwmni ei hun. Yn y senario hwn, mae'r cofrestrai yn gorff corfforaethol.

15. **Ni** chyhoeddir manylion sy'n ymwneud â chynrychiolwyr trydydd parti; dim ond manylion am y cofrestreion eu hunain sydd i'w cyhoeddi.

16. Gallai cynrychiolydd trydydd parti fod yn unigolyn, neu gallai hefyd fod yn gorff corfforaethol (er enghraifft, cwmni cyfreithiol) neu'n gymdeithas anghorfforedig. Bydd y wybodaeth sydd ei hangen yn dibynnu a yw'r cynrychiolydd yn unigolyn, yn gorff corfforaethol neu'n gymdeithas anghorfforedig.

17. Pan fo cynrychiolydd trydydd parti yn **unigolyn**, mae'n ofynnol iddynt ddarparu'r wybodaeth ganlynol amdanynt eu hunain:

| # | Math o wybodaeth sydd ei hangen | Wedi'i gyhoeddi |
|---|---|---|
| 1 | Enw llawn | |
| 2 | Unrhyw enw blaenorol | |
| 3 | Cyfeiriad preswyl a chyfeiriad gohebiaeth | |
| 4 | Rhif ffôn | |
| 5 | Cyfeiriad e-bost | |
| | | |
| | | |
| | | |

18. Pan fo cynrychiolydd trydydd parti yn gorff corfforaethol, mae angen y wybodaeth ganlynol am y corff corfforaethol:

| # | Math o wybodaeth sydd ei hangen | Wedi'i gyhoeddi |
|---|---|---|
| 1 | Enw llawn ac unrhyw enw masnachu | |
| 2 | Cyfeiriad cofrestredig neu gyfeiriad y brif swyddfa | |
| 3 | Cyfeiriad gohebiaeth | |
| 4 | Rhif ffôn | |
| 5 | Cyfeiriad e-bost | |

19. Pan fo cynrychiolydd trydydd parti yn gymdeithas anghorfforedig, mae angen y wybodaeth ganlynol am y gymdeithas anghorfforedig:

| # | Math o wybodaeth sydd ei hangen | Wedi'i gyhoeddi |
|---|---|---|
| 1 | Enw llawn ac unrhyw enw masnachu | |
| 2 | Cyfeiriad y brif swyddfa | |
| 3 | Cyfeiriad gohebiaeth | |
| 4 | Rhif ffôn | |
| 5 | Cyfeiriad e-bost | |

# Pennod 3: Gwybodaeth sy'n ofynnol o dan yr haen dylanwad gwleidyddol

20. Mae'n ofynnol i'r rhai sy'n cofrestru trefniant o dan yr haen dylanwad gwleidyddol ddarparu manylion eu trefniant gyda'r pŵer tramor a manylion eu gweithgareddau dylanwad gwleidyddol. Gall gweithgareddau dylanwad gwleidyddol fod yn unrhyw un o'r canlynol:
    - Gweithgareddau cyfathrebu;
    - Gweithgareddau cyfathrebu cyhoeddus;
    - Gweithgareddau dosbarthu (darparu arian, nwyddau neu wasanaethau).

21. Bydd y rhan fwyaf o wybodaeth sy'n ymwneud â chofrestriadau o dan yr haen dylanwad gwleidyddol yn cael ei chynnwys ar gofrestr gyhoeddus, oni bai bod eithriad i gyhoeddi yn berthnasol.

## Gwybodaeth sy'n ymwneud â threfniadau haen dylanwad gwleidyddol

22. Mae'n ofynnol i'r rhai sy'n cofrestru o dan yr haen dylanwad gwleidyddol ddarparu'r wybodaeth ganlynol ym mhob amgylchiad:

| # | Math o wybodaeth sydd ei hangen | Wedi'i gyhoeddi |
|---|---|---|
| 1 | Disgrifiad o natur a ffurf y trefniant (er enghraifft, contract) | Yes |
| 2 | Enw'r pŵer tramor (er enghraifft, Plaid Lywodraethol Gwlad A) | Yes |
| 3 | Dyddiad rhoi'r cyfarwyddyd | Yes |
| 4 | *[Pan nad yw'r rhai sy'n cyflawni'r gweithgareddau yr un â'r cofrestrai [“P”]]* Enwau'r personau i gyflawni'r gweithgareddau (neu ddisgrifiad o'r personau i gyflawni'r gweithgareddau), eu rôl yn y gweithgareddau a'u perthynas â'r cofrestrai (er enghraifft, ymgynghorwyr sy'n rhan o rwydwaith X, y mae'r cofrestrai hefyd yn rhan ohono, sy'n ymwneud â'r gweithgareddau lobïo seneddol) | Yes |
| 5 | *[Pan nad yw'r rhai sy'n cyflawni'r gweithgareddau yr un fath â'r cofrestrydd [“P”]]* Cyfeiriad e-bost, rhif ffôn a chyfeiriad preswyl y rhai sy'n cyflawni'r gweithgareddau (lle bo ar gael) | |
| 6 | Dyddiad(au) y digwyddodd gweithgareddau dylanwad gwleidyddol neu y byddant yn dechrau | Yes |
| 7 | P'un a yw'r gweithgareddau i'w cynnal ar sail untro neu a ydynt i'w hailadrodd | Yes |
| 8 | Dyddiad gorffen amcangyfrifedig gweithgareddau dylanwad gwleidyddol *(neu ddatganiad yn nodi y bydd y gweithgareddau'n parhau am gyfnod amhenodol neu mai eu dyddiad gorffen yn anhysbys)* | Yes |

23. Nid yw'r wybodaeth yn rhes #4 uchod yn ei gwneud yn ofynnol i gofrestreion ddarparu manylion holl gyflogeion cwmni sy'n ymwneud â gweithgareddau cofrestradwy. Lle mae'r gweithgareddau i'w cynnal gan gwmni, mae enw'r cwmni a'r berthynas rhwng y cwmni a'r cofrestrai yn ddigonol.

## Gwybodaeth sy'n gysylltiedig â gweithgareddau cyfathrebu

24. Mae'n ofynnol i'r rhai sy'n cofrestru gweithgareddau cyfathrebu ddarparu'r wybodaeth ganlynol hefyd.

| # | Math o wybodaeth sydd ei hangen | Wedi'i gyhoeddi |
|---|---|---|
| 1 | Rôl y person y cyfathrebir ag ef (er enghraifft, Dirprwy Gyfarwyddwr Gorfodi Mewnfudo)<br>Lle na ellir adnabod derbynnydd unigol y cyfathrebiad yn unigol, naill ai:<br>• Categori'r person y cyfathrebir y cyfathrebiad ato (er enghraifft, Aelod Seneddol); neu<br>• Disgrifiad o'r mathau o bersonau y gwneir y cyfathrebiad iddo (er enghraifft, uwch weision sifil sy'n gyfrifol am fewnfudo yn y Swyddfa Gartref) | Ydy |
| 2 | Enw'r person y cyfathrebir ag ef/hi (lle bo'n hysbys) | |
| 3 | Natur a ffurf (lle bo'n hysbys) y cyfathrebiad (er enghraifft, negeseuon e-bost) | Ydy |
| 4 | Diben a chanlyniad a geisir o'r cyfathrebiad (er enghraifft, dylanwadu ar ASau i sicrhau bod gwelliant i ddeddfwriaeth X yn cael ei wrthod) | Ydy |

25. Lle mae gweithgareddau dylanwad gwleidyddol yn cael eu targedu at unigolion adnabyddadwy, mae'r Llywodraeth yn bwriadu eu hysbysu cyn cyhoeddi'r cofrestriad.

## Gwybodaeth sy'n ymwneud â gweithgareddau cyfathrebu cyhoeddus

26. Mae'n ofynnol i'r rhai sy'n cofrestru gweithgareddau cyfathrebu cyhoeddus ddarparu'r wybodaeth ganlynol hefyd.

| # | Math o wybodaeth sydd ei hangen | Wedi'i gyhoeddi |
|---|---|---|
| 1 | Natur a ffurf (lle bo'n hysbys) y cyfathrebiad (er enghraifft, erthygl papur newydd) | Ydy |
| 2 | Cynulleidfa fwriadedig y cyfathrebiad (os yw'n hysbys) (er enghraifft, dynion busnes y DU ym maes deallusrwydd artiffisial) | Ydy |
| 3 | Diben a chanlyniad a geisir gan y cyfathrebiad (os yw'n hysbys) (er enghraifft, annog y Llywodraeth i wrthdroi eu penderfyniad polisi diweddar ar fater X) | Ydy |

## Gwybodaeth sy'n gysylltiedig â gweithgareddau dosbarthu

27. Mae'n ofynnol i'r rhai sy'n cofrestru gweithgareddau dosbarthu ddarparu'r wybodaeth ganlynol hefyd:

| # | Math o wybodaeth sydd ei hangen | Wedi'i gyhoeddi |
|---|---|---|
| 1 | Natur yr arian, y nwyddau neu'r gwasanaethau i'w dosbarthu (er enghraifft, gwasanaethau ymgynghori ynghylch cyfleoedd buddsoddi mewn prosiectau ynni gwynt yng ngwlad X) | Ydy |
| 2 | Gwerth y nwyddau neu'r gwasanaethau i'w dosbarthu | Ydy |
| 3 | Enw'r person sy'n derbyn y nwyddau neu'r gwasanaethau (lle bo'n hysbys) | |
| 4 | Rôl neu swyddogaeth y person y mae'r person sy'n derbyn y nwyddau neu'r gwasanaethau yn gweithredu ynddo (er enghraifft, Dirprwy Gyfarwyddwr Gorfodi Mewnfudo)<br><br>Lle na ellir adnabod derbynnydd unigol yr arian, nwyddau neu wasanaethau yn unigol, mae disgrifiad o'r mathau o bobl y gwneir y dosbarthiad iddynt yn dderbyniol (er enghraifft, uwch weision sifil sy'n gyfrifol am fewnfudo yn y Swyddfa Gartref)) | Ydy |
| 5 | Diben a chanlyniad dymunol y dosbarthiad (er enghraifft, annog y Llywodraeth i gymeradwyo trwydded allforio ar gyfer cwmni X) | Ydy |

# Pennod 4: Gwybodaeth sy'n ofynnol o dan yr haen uwch

28. Gallai'r rhai sy'n cofrestru o dan yr haen uwch fod naill ai:
    - Person mewn trefniant gyda phŵer neu endid tramor penodedig;
    - Endid penodedig a reolir gan bŵer tramor sy'n cofrestru ei weithgareddau ei hun.

## Gwybodaeth sy'n ymwneud â threfniadau gyda phwerau neu endidau tramor penodedig

29. Pan fo trefniant i'w gofrestru o dan yr haen uwch, mae angen y wybodaeth ganlynol:

| # | Math o wybodaeth sydd ei hangen | Wedi'i gyhoeddi (gweithgareddau dylanwad gwleidyddol) | Wedi'i gyhoeddi (gweithgareddau eraill) |
|---|---|---|---|
| 1 | Disgrifiad o natur a ffurf y trefniant (er enghraifft, Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth nad yw'n gyfreithiol rwymol) | Ydy | |
| 2 | Enw'r person penodedig | Ydy | |
| 3 | Dyddiad rhoi'r cyfarwyddyd | Ydy | |
| 4 | [*Os nad yw'r rhai sy'n cyflawni'r gweithgareddau yr un fath â'r cofrestrydd ("P")*] Enwau'r bobl a fydd yn cyflawni'r gweithgareddau (neu ddisgrifiad o'r bobl a fydd yn cyflawni'r gweithgareddau), eu rôl yn y gweithgareddau a'u perthynas â'r cofrestrai (er enghraifft, ymgynghorwyr sy'n rhan o rwydwaith X, y mae'r cofrestrai hefyd yn rhan ohono, sy'n ymwneud â rhoi cyngor ar reoli risgiau ym mhrosiect X) | Ydy | |
| 5 | Cyfeiriad e-bost, rhif ffôn a chyfeiriad preswyl y rhai sy'n cynnal y gweithgareddau (lle bo ar gael) | | |
| 6 | Disgrifiad o'r mathau o weithgareddau perthnasol i'w cynnal (er enghraifft, gweithgareddau marchnata, i'w cynnal drwy hysbysebion teledu a digwyddiadau wyneb yn wyneb ar gyfer rhanddeiliaid mewn diwydiannau X) | Ydy | |
| 7 | Diben a chanlyniad dymunol y gweithgareddau (er enghraifft, codi ymwybyddiaeth a chynyddu nifer yr ymgeiswyr i gyfleoedd X) | Ydy | |

| # | Math o wybodaeth sydd ei hangen | Wedi'i gyhoeddi (gweithgareddau dylanwad gwleidyddol) | Wedi'i gyhoeddi (gweithgareddau eraill) |
|---|---|---|---|
| 8 | Y dyddiad y disgwylir i'r gweithgareddau ddechrau | Ydy | |
| 9 | A yw'r gweithgareddau'n cael eu cynnal ar sail untro neu a ydynt i'w hailadrodd | Ydy | |
| 10 | Dyddiad gorffen disgwyliedig y gweithgareddau (neu ddatganiad yn nodi y bydd y gweithgareddau'n parhau am gyfnod amhenodol neu nad yw eu dyddiad gorffen yn hysbys) | Ydy | |

30. **Nid** yw'r wybodaeth yn rhes #4 uchod yn ei gwneud yn ofynnol i gofrestreion ddarparu manylion holl gyflogeion cwmni sy'n ymwneud â gweithgareddau cofrestradwy. Lle mae'r gweithgareddau i'w cynnal gan gwmni, mae enw'r cwmni'n ddigonol.

31. Lle mae trefniant yn gofrestradwy o dan yr haen uwch a'r haen dylanwad gwleidyddol, dim ond cofrestru o dan yr haen uwch sydd ei angen. Lle mae gweithgareddau dylanwad gwleidyddol i'w cynnal fel rhan o drefniant sydd wedi'i gofrestru o dan yr haen uwch, mae'r wybodaeth sy'n ofynnol gan yr haen dylanwad gwleidyddol am y gweithgareddau hynny hefyd yn ofynnol.

32. Ni fydd gwybodaeth a gofrestrir o dan yr haen uwch yn cael ei chyhoeddi, oni bai bod y trefniant yn ymwneud â, neu'n cynnwys, cynnal gweithgareddau dylanwad gwleidyddol. Yn yr amgylchiadau hyn, bydd y wybodaeth sydd i'w chyhoeddi yn cyd-fynd â'r hyn a gyhoeddir o dan yr haen dylanwad gwleidyddol. Er enghraifft, lle mae trefniant yn cwmpasu dylanwad gwleidyddol a gweithgareddau cofrestradwy eraill, dim ond y wybodaeth ynghylch y gweithgareddau dylanwad gwleidyddol a gyhoeddir.

**Enghraifft (cyhoeddiad haen uwch):**

Mae Llywodraeth Gwlad A wedi'i phennu o dan yr haen uwch, gyda'r holl weithgareddau'n ffurfio "gweithgareddau perthnasol". Mae cwmni ymgynghori yn y DU yn llofnodi contract gyda Llywodraeth Gwlad A i roi cyngor i fusnesau o Wlad A ar sut i fuddsoddi yn y DU. Mae'r cwmni ymgynghori hefyd yn cael ei gyfarwyddo gan Lywodraeth Gwlad A i lobïo Llywodraeth y DU i leihau tariffau mewnforio ar nwyddau o Wlad A..

## Gwybodaeth sy'n ymwneud â gweithgareddau a gyflawnir gan endid penodedig a reolir gan bŵer tramor

33. Pan fydd endid penodedig a reolir gan bŵer tramor yn cofrestru ei weithgareddau ei hun, mae'n ofynnol iddo ddarparu'r wybodaeth ganlynol:

| # | Math o wybodaeth sydd ei hangen | Wedi'i gyhoeddi (gweithgareddau dylanwad gwleidyddol) | Wedi'i gyhoeddi (gweithgareddau eraill) |
|---|---|---|---|
| 1 | Disgrifiad o'r mathau o weithgareddau perthnasol i'w cynnal (er enghraifft, gweithgareddau hyrwyddo diwylliannol i arddangos celf artistiaid y 18fed ganrif o Wlad X ymhlith myfyrwyr prifysgol) | Ydy | |
| 2 | Diben a chanlyniad dymunol y gweithgareddau (er enghraifft, cynyddu gwybodaeth am ddiwylliant Gwlad A a gwella dealltwriaeth o'r gwahaniaethau diwylliannol rhwng y DU a Gwlad A) | Ydy | |
| 4 | Y dyddiad y disgwylir i'r gweithgareddau ddechrau | Ydy | |
| 5 | A yw'r gweithgareddau'n cael eu cynnal ar sail untro neu a ydynt i'w hailadrodd | Ydy | |
| 6 | Dyddiad gorffen disgwyliedig y gweithgareddau (neu ddatganiad yn nodi y bydd y gweithgareddau'n parhau am gyfnod amhenodol neu nad yw eu dyddiad gorffen yn hysbys) | Ydy | |

34. Pan fydd person penodedig yn cofrestru gweithgareddau dylanwad gwleidyddol, mae'n ofynnol iddynt hefyd ddarparu'r wybodaeth y byddai'r haen dylanwad gwleidyddol yn ei gwneud yn ofynnol am y gweithgareddau hynny.

35. **Ni** fydd manylion gweithgareddau a gofrestrwyd gan bersonau penodedig yn cael eu cyhoeddi, oni bai bod y gweithgareddau hynny'n weithgareddau dylanwad gwleidyddol. Yn yr amgylchiadau hyn, bydd y wybodaeth sydd i'w chyhoeddi yn cyd-fynd â'r hyn a gyhoeddir o dan yr haen dylanwad gwleidyddol. Pan fydd trefniant yn cwmpasu dylanwad gwleidyddol a gweithgareddau cofrestradwy eraill, dim ond y wybodaeth ynghylch y gweithgareddau dylanwad gwleidyddol a gyhoeddir.

# Pennod 5: Y Gofrestr Gyhoeddus

36. Bydd gwybodaeth a gofrestrwyd o dan FIRS sy'n ymwneud â gweithgareddau dylanwad gwleidyddol yn cael ei chynnwys ar gofrestr gyhoeddus. Nod y gofrestr hon yw rhoi gwybodaeth well i'r cyhoedd ynghylch maint a graddfa dylanwad tramor mewn materion gwleidyddol y DU.

37. Dylid ystyried bod y rhai sy'n ymddangos ar y gofrestr gyhoeddus yn cefnogi amcanion tryloywder y cynllun. Nid yw ymddangos ar y gofrestr yn golygu bod unigolyn neu endid yn gwneud unrhyw beth anghyfreithlon.

38. Cyhoeddir gwybodaeth ar y gofrestr cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl iddi gael ei phrosesu gan weithiwr achos FIRS. Ni chaiff ei chyhoeddi ar adegau penodol; yn hytrach mae'n gofrestr fyw sy'n cael ei diweddaru'n rheolaidd.

39. Mae eithriadau i gyhoeddi yn berthnasol mewn rhai amgylchiadau, fel yr amlinellir ym mhennod 7. Ni fydd gwybodaeth yn cael ei chynnwys ar y gofrestr gyhoeddus pan fydd yr amgylchiadau hyn yn berthnasol.

40. Mewn rhai amgylchiadau, gellir crynhoi gwybodaeth a ddarperir wrth gofrestru ar y gofrestr gyhoeddus, yn hytrach na'i chyhoeddi'n llawn. Mae hyn er mwyn sicrhau bod gan gofnodion ar y gofrestr gyhoeddus faint cyson o fanylion ac i sicrhau mai dim ond gwybodaeth sy'n berthnasol i nodau tryloywder y cynllun sy'n cael ei chyhoeddi. Er enghraifft, pe bai cofrestrai wedi darparu gwybodaeth nad oedd yn berthnasol i'w drefniant neu ei weithgareddau o fewn cwmpas FIRS o fewn yr un ateb â'r wybodaeth yr oedd ei hangen arnynt, ni fyddai'r wybodaeth amherthnasol yn cael ei chyhoeddi.

## Cadw gwybodaeth ar y gofrestr gyhoeddusr

41. Cedwir gwybodaeth ar y gofrestr gyhoeddus am 10 mlynedd ar ôl y dyddiad gorffen a nodwyd ar gyfer trefniant. Lle nad yw dyddiad gorffen wedi'i ddarparu wrth gofrestru, cedwir y wybodaeth ar y gofrestr am gyfnod amhenodol.

42. Gall unigolion neu endidau ddiweddaru eu gwybodaeth drwy'r porth cofrestru ar-lein ar unrhyw adeg i hysbysu bod trefniant wedi dod i ben.

43. Bydd Tîm Rheoli Achosion FIRS hefyd yn adolygu gwybodaeth a gyhoeddwyd yn rheolaidd i nodi a ddylai barhau i ymddangos ar y gofrestr.

44. Lle mae gan y Tîm Rheoli Achosion reswm i gredu bod trefniant penagored wedi dod i ben, gallant ei farcio fel y cyfryw ar y gofrestr gyhoeddus a gallant ddileu trefniant penagored o'r gofrestr lle mae ganddynt reswm i gredu bod y trefniant wedi dod i ben fwy na 10 mlynedd yn ôl.

# Pennod 6: Lefel y manylder sydd ei angen wrth gofrestru

45. Mae Penodau 3 a 4 yn nodi'r wybodaeth sydd ei hangen wrth gofrestru o dan y ddwy haen.

46. Dylai cofrestreion ddarparu digon o fanylion wrth gofrestru i sicrhau bod gan y Llywodraeth ddarlun clir o'r gweithgareddau y maent wedi cael eu cyfarwyddo i'w cynnal neu eu trefnu, a'r dulliau y byddant yn gwneud hyn drwyddynt. Ni fydd datganiadau amwys fel "Rwy'n cyfathrebu â'r Llywodraeth i ddylanwadu ar bolisi" neu "Rwy'n gwerthu nwyddau a gwasanaethau" yn ddigonol. Fodd bynnag, mae'n bosibl darparu gwybodaeth am natur a phwrpas y gweithgareddau, heb fanylu ar "pwy, beth, pryd, ble, pam a sut" ar gyfer pob agwedd ar y gweithgareddau. Er enghraifft, ni fydd angen cofrestru pob e-bost a anfonir fel rhan o weithgaredd dylanwadu gwleidyddol, neu bob gwerthiant unigol a wneir neu gyfarfod a gynhelir o dan brosiect. Argymhellir eich bod yn ystyried sut y gall gweithgareddau esblygu dros amser wrth ddisgrifio eich gweithgareddau, er mwyn sicrhau nad yw'r wybodaeth yn dyddio’n hawdd.

47. Nid yw'n ofynnol i gofrestreion ddarparu gwybodaeth y mae ganddynt hawl i wrthod ei datgelu mewn achosion cyfreithiol ar sail braint broffesiynol gyfreithiol (yn yr Alban, cyfrinachedd cyfathrebiadau). Yn yr un modd, ni fydd gofyn iddynt ddatgelu deunydd newyddiadurol cyfrinachol (fel y'i diffinnir gan adran 264 o Ddeddf Pwerau Ymchwilio 2016) nac i nodi neu gadarnhau ffynhonnell gwybodaeth newyddiadurol (fel y'i diffinnir gan adran 263 o Ddeddf Pwerau Ymchwilio 2016).

# Pennod 7: Eithriadau i gyhoeddi

48. Mae amgylchiadau cyfyngedig lle mae eithriadau i gyhoeddi yn berthnasol. Wrth gofrestru trefniant, gofynnir i'r cofrestrai ddatgan fel rhan o'r broses gofrestru a yw'n credu bod eithriad yn berthnasol.

49. Mae eithriadau i gyhoeddi yn berthnasol yn yr amgylchiadau canlynol:
    - Eithriad 1: Lle mae risg y byddai cyhoeddi yn niweidio diogelwch neu fuddiannau'r DU.
    - Eithriad 2: Lle mae risg y byddai cyhoeddi yn niweidio atal neu ganfod troseddau, ymchwiliad troseddol neu achos troseddol;
    - Eithriad 3: Lle mae risg sylweddol y byddai cyhoeddi yn peryglu diogelwch unrhyw unigolyn yn ddifrifol.
    - Eithriad 4: Lle byddai cyhoeddi yn golygu datgelu gwybodaeth sy'n sensitif yn fasnachol.

## Proses ar gyfer cymhwyso eithriadau i gyhoeddi

50. Dylai cofrestreion sy'n credu bod eithriad i gyhoeddi yn berthnasol ddarparu tystiolaeth ategol wrth wneud y cofrestriad. Mae'r gwasanaeth cofrestru ar-lein yn rhoi'r cyfle i gofrestryddion wneud hynny ar ôl cyflwyno'r cofrestriad.

51. Bydd Tîm Rheoli Achosion FIRS yn hysbysu'r cofrestrai os yw'r eithriad wedi'i gymhwyso. Mewn rhai amgylchiadau, gall Tîm Rheoli Achosion FIRS ofyn am dystiolaeth bellach gan y cofrestrai. Os yw'r dystiolaeth i gefnogi eithriad i gyhoeddi yn anfoddhaol, neu os nad yw'n bodloni'r meini prawf ar gyfer unrhyw un o'r eithriadau, yna bydd y cofrestrai yn cael ei hysbysu o'r dyddiad y bydd y wybodaeth yn cael ei chyhoeddi. Os yw'r cofrestrai yn darparu tystiolaeth bellach bod eithriad i gyhoeddi yn berthnasol cyn y dyddiad hwn, yna bydd y cyhoeddiad yn cael ei ohirio tra bod y dystiolaeth ychwanegol yn cael ei hystyried. Os na roddir eithriad, rhoddir un cyfle i'r cofrestrai ofyn am ailystyriaeth.

52. Gall eithriadau i gyhoeddi fod yn berthnasol i gofrestriad cyfan, neu i ran o'r cofrestriad yn unig. Yn yr achosion olaf, bydd y cofrestriad yn cael ei gyhoeddi, ond gyda'r wybodaeth berthnasol wedi'i golygu. Er enghraifft, gyda chofrestriadau lle dim ond rhywfaint o'r wybodaeth sy'n sensitif yn fasnachol, bydd y gofrestr yn cael ei chyhoeddi ond gyda'r wybodaeth sy'n sensitif yn fasnachol wedi'i golygu.

53. **Ni ellir** hawlio eithriadau ar gyfer senarios lle byddai gwybodaeth ar y gofrestr gyhoeddus yn achosi niwed i enw da yn unig.

54. Nid oes angen oedi gweithgareddau pan ystyrir eithriad i gyhoeddi. Nid oes gan y penderfyniad ynghylch a yw eithriad yn berthnasol unrhyw effaith ar a all y gweithgareddau barhau ai peidio.

55. Gall eithriadau i gyhoeddi fod yn berthnasol yn ôl-weithredol, sy'n golygu y gellir tynnu cofrestriad, neu wybodaeth fel rhan o gofrestriad, o'r gofrestr gyhoeddus ar ôl iddi gael ei chyhoeddi eisoes. Gallai hyn fod yn wir os, er enghraifft, bu newid mewn amgylchiadau ers i'r cofrestriad gael ei wneud ac mae eithriad wedi dechrau dod yn berthnasol.

56. Os ydych chi'n credu y dylai eithriad i gyhoeddi fod yn berthnasol i gofrestriad sydd eisoes wedi'i gyhoeddi, dylech gysylltu â'r Tîm Rheoli Achosion a darparu tystiolaeth i gefnogi eich honiad bod eithriad yn berthnasol.

57. Dim ond am yr amser y mae'r eithriad yn berthnasol y dylid atal gwybodaeth rhag cael ei chyhoeddi. Er enghraifft, efallai y bydd gwybodaeth wedi'i heithrio oherwydd ei bod yn sensitif yn fasnachol tra bod contract yn cael ei drafod. Os, ar ôl i'r contract gael ei lofnodi, nad yw'r wybodaeth yn sensitif mwyach, rhaid i'r cofrestrai hysbysu'r Tîm Rheoli Achosion fel y gellir diweddaru'r gofrestr.

## Eithriad 1: Niweidiol i ddiogelwch neu fuddiannau'r DU

58. Mae'r eithriad hwn yn berthnasol lle byddai cyhoeddi yn niweidiol i ddiogelwch neu fuddiannau'r DU.

59. Dyma enghreifftiau o sefyllfaoedd lle gall yr eithriad hwn fod yn berthnasol:
    - Lle byddai cyhoeddi'n datgelu manylion cyfathrebiadau sensitif sy'n ymwneud â Llywodraeth y DU (er enghraifft, ar faterion sy'n ymwneud ag amddiffyn);
    - Lle gallai cyhoeddi gynorthwyo pŵer neu endid tramor a bennir o dan haen uwch FIRS i weithredu yn erbyn buddiannau'r DU;
    - Lle byddai cyhoeddi'n peri risg i seilwaith y DU neu asedau'r Llywodraeth.

## Eithriad 2: Niweidiol i ymchwiliadau a gweithdrefnau troseddol

60. 60. Mae'r eithriad hwn yn berthnasol lle byddai cyhoeddi yn niweidiol i:
    i) Atal neu ganfod trosedd;
    ii) Achosion troseddol; neu
    iii) Ymchwiliad troseddol.

61. Dyma enghreifftiau o sefyllfaoedd lle gall yr eithriad hwn fod yn berthnasol:
    - Lle gallai cyhoeddi ddatgelu gwybodaeth a fyddai'n ei gwneud hi'n haws cyflawni trosedd (e.e. pe bai'n gallu datgelu'r lleoliad lle'r oedd sylweddau rheoledig yn cael eu gwerthu'n anghyfreithlon);

- Lle gallai cyhoeddi ddatgelu gwybodaeth a oedd yn rhan o ymchwiliad troseddol.

## Eithriad 3: Rhoi diogelwch unigolyn mewn perygl

62. Mae'r eithriad hwn yn berthnasol lle mae risg sylweddol y byddai cyhoeddi yn peryglu diogelwch unrhyw unigolyn o niwed difrifol.

63. Dyma enghreifftiau o sefyllfaoedd lle gall yr eithriad hwn fod yn berthnasol:
    - Lle byddai cyhoeddi yn peri risg i fywyd unigolyn;
    - Lle byddai cyhoeddi yn peri risg i iechyd corfforol unigolyn (er enghraifft, risg y gallent ddioddef anaf difrifol, gan gynnwys trwy drais domestig);
    - Lle byddai cyhoeddi yn peri risg ddifrifol i iechyd meddwl neu emosiynol unigolyn (er enghraifft, risg y gallent ddioddef aflonyddu neu stelcio).

64. Gall yr eithriad hwn fod yn berthnasol, yn benodol, i'r rhai sy'n ymgyrchu ar faterion hawliau dynol, lle gallai hwy, eu teuluoedd neu eu cydweithwyr gael eu rhoi mewn perygl yn eu mamwlad o ganlyniad i ymddangos ar y gofrestr gyhoeddus.

65. Mae'n debygol y bydd yr eithriad hefyd yn berthnasol i senarios lle mae pŵer tramor wedi defnyddio gorfodaeth fel rhan o gyfarwyddyd i unigolyn, gan y gallai'r pŵer tramor gymryd mesurau gorfodol neu gosbol pellach o ganlyniad i ymddangos ar y gofrestr gyhoeddus.

66. Gall yr eithriad fod yn fwy tebygol o fod yn berthnasol i'r rhai sy'n ymwneud â gwaith dadleuol, er enghraifft, arbrofi ar anifeiliaid, ymchwil arfau, triniaeth erthyliad neu'r rhai sy'n gweithredu'n gudd o fewn maes gorfodi'r gyfraith neu wasanaethau diogelwch. Fodd bynnag, os na fyddai cyhoeddi yn datgelu (yn ymhlyg neu'n benodol) y mathau o waith yr oeddent yn ymwneud â nhw, yna ni fyddai'r eithriad yn berthnasol yn awtomatig hyd yn oed pe bai unigolyn a enwir ar y gofrestr yn gweithio yn un o'r meysydd hyn.

67. Dylai tystiolaeth i gefnogi'r eithriad hwn, lle bo modd, gynnwys tystiolaeth o risg ddifrifol i unigolyn a enwir. Fodd bynnag, mewn rhai amgylchiadau, gall tystiolaeth o risgiau i grŵp penodol yn deillio o weithgareddau tebyg yn y gorffennol fod yn dystiolaeth gefnogol dderbyniol. Rhaid, fodd bynnag, fod tystiolaeth o gysylltiad achosol rhwng y cyhoeddiad a'r risg i'r unigolyn.

68. Gallai tystiolaeth dderbyniol gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, y canlynol:
    - rhif digwyddiad yr heddlu os yw ymosodiad blaenorol wedi digwydd;
    - tystiolaeth ddogfennol o fygythiad neu ymosodiad, fel lluniau neu recordiadau;
    - enghreifftiau o amgylchiadau lle mae unigolion sy'n perthyn i'r un grŵp neu sy'n cyflawni gweithgareddau tebyg wedi bod yn destun risgiau diogelwch personol (gallai hyn gynnwys adroddiadau newyddion am yr amgylchiadau hyn);

- tystiolaeth o gyflogaeth mewn sefydliad (er enghraifft, asiantaeth cudd-wybodaeth dramor) sy'n eich rhoi mewn perygl penodol;
- tystiolaeth o feddu ar nodwedd benodol neu berthyn i grŵp penodol (er enghraifft, grŵp crefyddol) sy'n eich rhoi mewn perygl penodol.

69. Mae'n bosibl y gellid defnyddio esboniadau yn unig, heb dystiolaeth ddogfennol, i ddangos bod yr eithriad hwn yn berthnasol. Fodd bynnag, byddai angen i'r esboniad ddarparu digon o fanylion i ddangos lefel y risg, y person neu'r mathau o berson a fyddai'n cael eu rhoi mewn perygl, natur y niwed a allai gael ei achosi a pham y gallai cyhoeddi arwain at y niwed hwn.

70. Ni fydd risgiau sydd o natur hollol ddamcaniaethol heb dystiolaeth i'w cefnogi yn bodloni'r trothwy i'r eithriad hwn fod yn berthnasol. Er enghraifft, ni fyddai risg ddamcaniaethol y gallai adnabod unigolyn drwy'r gofrestr gyhoeddus arwain at iddynt fod yn destun aflonyddu yn ddigonol, pe na bai unrhyw dystiolaeth o aflonyddu'n digwydd i'r unigolyn hwnnw, unigolion sy'n perthyn i'r un grŵp, neu unigolion sy'n cyflawni gweithgareddau tebyg wedi'i nodi.

## Eithriad 4: Gwybodaeth sy'n sensitif yn fasnachol

71. Mae'r eithriad hwn yn berthnasol lle byddai cyhoeddi yn arwain at ddatgelu gwybodaeth sy'n sensitif yn fasnachol.

72. Mae enghreifftiau o fathau o wybodaeth y gellid eu hystyried yn sensitif yn fasnachol yn cynnwys:
    - gwariant cyfalaf a threuliau gweithredu;
    - uno a chaffael sydd ar ddod; a
    - cyfrinachau masnach, patentau ac eiddo deallusol arall

73. Er mwyn honni bod yr eithriad ar gyfer gwybodaeth sy'n sensitif yn fasnachol yn berthnasol, bydd angen darparu tystiolaeth i arddangos:
    - Mae gwybodaeth a fyddai’n cael ei chyhoeddi yn gyfrinachol; a
    - Mae’n debygol iawn y bydd ei chyhoeddi’n niweidio buddiannau masnachol unrhyw unigolyn neu endid o ddifrif.

74. Ystyrir bod gwybodaeth yn gyfrinachol os:
    - Nid yw'n hysbys yn gyffredinol i unigolion allanol i'ch sefydliad, nac ar gael iddynt, oni bai bod angen iddynt gael mynediad at y wybodaeth i gyflawni eu rolau (fel y gall fod yn wir gyda rhai contractwyr, cyflenwyr neu bartneriaid busnes); a
    - Mae'n destun mesurau i'w hatal rhag cael ei datgelu y tu allan i'r cylchoedd caeedig hyn (er enghraifft, cyfyngiadau mynediad yn yr ardal lle mae'r wybodaeth yn cael ei storio; neu gytundebau contractiol sy'n gwahardd datgelu'r wybodaeth).

75. Er mwyn i'r eithriad hwn fod yn berthnasol, rhaid bod cysylltiad clir rhwng cyhoeddi a niwed i fuddiannau masnachol. Gallai hyn gynnwys, er enghraifft, lle mae manylion penodol a fyddai'n cael eu cyhoeddi a fyddai'n fanteisiol iawn i gystadleuydd.

76. Mae'n bosibl y gallai bodolaeth trefniant ynddo'i hun fod yn sensitif yn fasnachol, fodd bynnag, byddai angen i gofrestrai ddarparu tystiolaeth i ddangos bod hyn yn wir yn yr achos. Yn yr amgylchiadau hyn, ni fydd y cofrestriad cyfan yn cael ei gyhoeddi.

77. Er y bydd y dystiolaeth sy'n dderbyniol i arddangos eithriad yn amrywio ym mhob achos, gellid darparu'r mathau canlynol o dystiolaeth (os yw'n briodol ac yn berthnasol):
    - Copïau o Gytundebau Dim Datgelu neu fanylion rhwymedigaethau contractiol,
    - Ceisiadau patent neu ddogfennau diogelu eiddo deallusol eraill,
    - Asesiadau arbenigol o werth masnachol y wybodaeth.

78. Mae hefyd yn bosibl y gellid defnyddio esboniadau yn unig, heb dystiolaeth ddogfennol, i arddangos bod yr eithriad yn berthnasol, yn enwedig ar gyfer trefniadau anffurfiol. Fodd bynnag, dylai'r cofrestrai sicrhau ei fod yn darparu digon o fanylion i arddangos y **ddau beth**, sef bod y wybodaeth yn gyfrinachol, **a** bod ei chyhoeddi'n debygol iawn o niweidio buddiannau masnachol o ddifrif.

79. Nid yw risg o niwed i enw da o ganlyniad i gyhoeddi, ynddo'i hun, yn golygu bod yr eithriad i gyhoeddi yn berthnasol. Byddai angen darparu tystiolaeth ynghylch sut y byddai'r niwed hwnnw i enw da yn cael ei achosi gan gyhoeddi a sut y byddai'n niweidio buddiannau masnachol y cwmni o ddifrif.

80. Ni fydd risgiau sydd o natur hollol ddamcaniaethol heb dystiolaeth i'w cefnogi yn bodloni'r trothwy i'r eithriad hwn fod yn berthnasol. Er enghraifft, ni fyddai risg ddamcaniaethol y byddai cyhoeddi trefniant yn arwain at fantais fasnachol yn cael ei rhoi i gystadleuydd yn ddigonol, pe na bai esboniad na thystiolaeth pam y byddai'r wybodaeth a gyhoeddir o werth digonol i gystadleuydd.

# Pennod 8: Rhyngweithio rhwng cofrestr gyhoeddus FIRS â chyhoeddiadau tryloywder eraill

81. Mae haen dylanwad gwleidyddol FIRS yn ei gwneud yn ofynnol i unigolion neu sefydliadau gofrestru lle cânt eu cyfarwyddo gan bŵer tramor i gynnal neu drefnu gweithgareddau dylanwad gwleidyddol. Gallai hyn gynnwys cyfathrebiadau neu daliadau i Seneddwyr, gweinidogion, ac uwch swyddogion y llywodraeth sy'n bwriadu dylanwadu arnynt.

82. Mae nifer o gyhoeddiadau tryloywder llywodraeth a seneddol eraill sy'n cofnodi manylion cyfarfodydd â Seneddwyr, Gweinidogion y Llywodraeth, cynghorwyr arbennig ac uwch weision sifil a rhoddion iddynt; felly gall rhywfaint o wybodaeth ar gofrestr FIRS ymddangos ar y cofrestrau hyn hefyd.

83. Fodd bynnag, mae'n bwysig cydnabod, er y gall fod rhywfaint o orgyffwrdd, fod pwrpas, cwmpas a gofynion FIRS yn sylfaenol wahanol i'r cofrestrau a'r cyhoeddiadau eraill. Mae'n bosibl na fydd gwybodaeth ar gofrestr gyhoeddus FIRS yn gofrestradwy neu o fewn cwmpas y cofrestrau neu'r cyhoeddiadau eraill. Yn yr un modd, mae hefyd yn bosibl na fydd gwybodaeth o fewn cwmpas cofrestr gyhoeddus arall o fewn cwmpas FIRS. Ni fydd bob amser yn glir o wybodaeth sydd wedi'i chynnwys ar gofrestrau eraill, a fyddai'r gweithgaredd yn dod o fewn cwmpas FIRS.

84. Mae cofrestr gyhoeddus FIRS hefyd yn gofrestr fyw, lle mae cofrestriadau (yn amodol ar unrhyw eithriadau) yn cael eu cyhoeddi cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl iddynt gael eu prosesu gan weithiwr achos FIRS, tra bod cofrestrau eraill yn cael eu cyhoeddi ar adegau penodol. Felly mae'n bosibl i wybodaeth ymddangos ar un gofrestr cyn y llall.

85. Bydd cofrestr gyhoeddus FIRS yn darparu, mewn un lle, darlun cynhwysfawr o weithgarwch dylanwad gwleidyddol a gyflawnir dan gyfarwyddyd pwerau tramor.

## Cofrestrau Buddiannau Ariannol Senedd y DU

86. Mae'r Gofrestr Buddiannau Ariannol Aelodau yn ei gwneud yn ofynnol i Aelodau Seneddol ddarparu gwybodaeth am unrhyw fuddiant ariannol sydd ganddynt, neu unrhyw fudd a dderbyniant, y gallai eraill yn rhesymol ystyried ei fod yn dylanwadu ar eu gweithredoedd, eu hareithiau neu eu pleidleisiau yn y Senedd, neu gamau a gymerir yn rhinwedd ei swydd fel Aelod Seneddol. Mae gofynion tebyg yn berthnasol i Aelodau Tŷ'r Arglwyddi.

87. Mae'r Gofrestr Buddiannau Ariannol Aelodau yn Nhŷ'r Cyffredin yn cael ei diweddaru tua phob pythefnos, neu'n fisol pan nad yw'r Senedd yn eistedd. Mae'r Gofrestr Buddiannau ar gyfer Aelodau Tŷ'r Arglwyddi yn cael ei diweddaru'n ddyddiol pan fydd y Tŷ'n eistedd.

88. Mewn amgylchiadau lle mae cyfathrebiad neu alldaliad yn cael ei wneud i aelod o'r naill Dŷ Seneddol neu'r llall gan berson sydd wedi cael ei gyfarwyddo gan bŵer tramor ac sy'n bwriadu dylanwadu arnynt, byddai'r trefniant gyda'r pŵer tramor y mae'r cyfathrebiad neu'r alldaliad hwnnw'n ymwneud ag ef hefyd yn gofrestradwy o dan FIRS. Fodd bynnag, byddai angen ei gofrestru gan y person sy'n cael ei gyfarwyddo gan y pŵer tramor, yn hytrach na chan yr Aelod Seneddol neu Aelod Tŷ'r Arglwyddi. Byddai angen gwahanol lefelau o wybodaeth o dan FIRS ac efallai na fydd amseriadau'r cyhoeddi'n cyd-fynd chwaith.

89. Nid yw FIRS yn gosod unrhyw ddyletswyddau adrodd ar Seneddwyr sy'n dargedau neu'n dderbynwyr gweithgareddau dylanwad gwleidyddol. Yn hytrach, mae'r cynllun yn ei gwneud yn ofynnol i'r person neu'r personau sy'n cael eu cyfarwyddo wneud, neu drefnu, y cyfathrebiadau neu'r alldaliadau hynny, gofrestru eu gweithgaredd ar y gofrestr gyhoeddus.

90. Yn yr un modd, nid yw ymddangos ar gofrestr gyhoeddus FIRS yn golygu bod angen i Seneddwr wneud cofnod o dan gofrestr buddiannau senedd y DU, ac eithrio lle maent, er enghraifft, wedi derbyn rhodd neu letygarwch y gellir ei gofrestru o dan y rheolau seneddol.